Cyfranogiad plant a phobl ifanc (3-11 oed) mewn materion gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu bywydau

Mawrth 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw gwella ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

‰ Hawlfraint y Goron 2007: Gellir defnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 1

Cefndir 2

Prif ganfyddiadau 3

Argymhellion 5

Tystiolaeth arolygu o raddau cyfranogiad plant a phobl ifanc 6

Cynghorau ysgol a'r modd y maent yn galluogi cyfranogiad disgyblion mewn prosesau democratig a gwneud penderfyniadau 11

Cysylltiad disgyblion â chymuned yr ysgol 14

Atodiad

Diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â phobl ifanc 11-25 oed

Cyflwyniad

1 Yn 2005-6, comisiynwyd Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud arolwg ac adrodd ar y graddau yr oedd pobl ifanc 11-25 oed yn cael cyfleoedd i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau ynghylch materion a oedd yn effeithio ar eu bywydau. Eleni, fel rhan o'r cylch gwaith blynyddol 2006-7 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae arolygwyr Estyn wedi canolbwyntio ar yr un agwedd mewn perthynas â dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed. Yn yr atodiad, mae'r casgliadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad blaenorol ar bobl ifanc 11-25 oed wedi'u diweddaru.

2 Nod yr adroddiad hwn yw nodi ac arfarnu'r sefyllfa mewn perthynas â chyfranogiad dysgwyr ifanc, yng nghyd-destun ysgolion yn bennaf. Mae'n edrych ar y modd y mae darparwyr yn defnyddio cynghorau ysgol a'r graddau y mae cyfranogiad disgyblion wedi'i gwreiddio ym mywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach. Defnyddir astudiaethau achos byr i enghreiffito arfer dda.

3 Wrth edrych ar y graddau y mae pobl ifanc yn cyfranogi mewn gwneud penderfyniadau ynghylch materion sy'n effeithio ar eu bywydau, mae'r adroddiad yn ystyried agweddau ar weithgarwch y mae gan ysgolion ac awdurdodau lleol reolaeth uniongyrchol drostynt, neu lle mae'r gallu ganddynt i ddylanwadau ar bartneriaid, fel rhieni a'r gymuned leol.

4 Fel rhan o'r arolwg, ymwelodd arolygwyr â 15 o ysgolion ledled Cymru, yn cwmpasu ystod llawn y ddarpariaeth drefol, wledig, a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Hefyd, buont yn siarad â staff o nifer o awdurdodau addysg lleol (AALlau). Cynhaliwyd cyfweliadau ganddynt â phenaethiaid, athrawon dosbarth, cynorthwywyr addysgu a disgyblion. Hefyd, bu arolygwyr yn archwilio tystiolaeth o arolygiadau ysgolion cynradd a gynhaliwyd yn y flwyddyn academaidd 2005-06. Buont yn archwilio tystiolaeth o arolygiadau AALl yn ogystal.

5 At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir "cyfranogiad" fel a ganlyn:

> Cyfranogiad yw hawl dysgwyr i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, neu gynllunio neu adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnynt. Mae'n golygu annog plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn penderfyniadau ynghylch gwasanaethau a darpariaeth sy'n effeithio ar eu bywydau, ac yn fwy cyffredinol bywyd a gwaith eu hysgolion a'u cymunedau. Mewn geiriau eraill: "Cael llais, cael dewis".
> Dyma eiriau person ifanc o Sir Fynwy a enillodd gystadleuaeth, wedi'i threfnu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, i ysgrifennu diffiniad o "gyfranogiad".

Cefndir

6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu ei hymrwymiad i gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y tair dogfen allweddol ganlynol:

- Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth;
- Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru; a
- Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.

7 Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi arweiniad drafft ar y Ddeddf Plant sy'n nodi hefyd bwysigrwydd Erthygl 12 Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) sy'n nodi hawliau plant a phobl ifanc i gyfranogi.

8 Mae Adran 176 Deddf Addysg 2002 yn pennu dyletswydd ar awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethol i ymgynghori â disgyblion wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 yn amlinellu bod rhaid i gorff llywodraethol ysgol sefydlu cyngor ysgol, fel y gall disgyblion drafod materion sy'n gysylltiedig â'u hysgol, eu haddysg a materion eraill o ddiddordeb.

9 Mae sefydlu Consortiwm Cyfranogiad a gwefan cynghorau ysgol www.schoolcouncilswales.org.uk yn adlewyrchu blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys ac ymgynghori mwy â phobl ifanc am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, yn yr ysgol a thu hwnt.

10 Mae cyfranogiad disgyblion yn ganolog i unrhyw fath o addysg. Yn sylfaenol, os nad yw disgyblion yn cyfranogi mewn gwersi, nid ydynt yn dod yn rhan o'r astudio a'r gweithgarwch, ac, o ganlyniad, nid ydynt yn dysgu. Bydd unrhyw ysgol lle nad yw disgyblion yn gysylltiedig, neu lle mae ymddygiad gwael yn tarfu ar ddysgu, yn ysgol lle mae cyfranogiad disgyblion yn wan. Mae addysgu da yn golygu rhyngweithio â dysgwyr a gwrando arnynt. Lle mae dysgwyr yn oddefol, nid ydynt yn gysylltiedig nac yn cyfranogi. Mae hyn yn golygu bod yr addysgu, a safonau'n aml hefyd, yn wael.

11 Mae ysgolion wedi chwarae rhan bwysig o hyd i ddarparu ystod dda o brofiadau i blant a phobl ifanc i hyrwyddo cyfranogiad a gwneud penderfyniadau. Mae'r rhwymedigaeth i sefydlu cyngor ysgol wedi datblygu a ffurfioli'r agwedd hon ar fywyd ysgol.

12 Mae'r disgrifiad canlynol yn dod o'r wefan cynghorau ysgolion:

> "Mae cyngor yr ysgol yn cynnwys grŵp o fyfyrwyr a benodwyd i gynrychioli corff y myfyrwyr. Drwy'r cyngor, cânt gyfleoedd i gyfranogi yn eu materion eu hunain ac i gyfrannu at gymuned yr ysgol. Mae cyngor yr ysgol yn eu galluogi i ddysgu trwy broses gwneud penderfyniadau ddemocratig am eu rôl fel dinesydd."

Prif ganfyddiadau

13 Mae gofyniad y polisi cenedlaethol i sefydlu cyngor ysgol yn yr holl ysgolion cynradd ac iau wedi gwneud rheolwyr ysgol yn fwy ymwybodol o ba mor bwysig yw hi i ddisgyblion a phobl ifanc gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau ynghylch eu bywydau a'u gwaith yn yr ysgol.

14 Mae cynghorau ysgol yn fodd effeithiol iawn o gynnwys plant a phobl ifanc ym mywyd yr ysgol. Maent yn rhoi cyfrifoldeb i ddisgyblion ac yn gwneud iddynt deimlo'n werthfawr. Mae'r rheoliadau statudol mewn perthynas â chynghorau ysgol wedi gwneud gwahaniaeth pwysig i agweddau ysgolion tuag at gynghorau. Ar y cychwyn roedd rhai aelodau staff ysgolion yn ofni'r hyn y gallai cyngor ei olygu i athrawon o ran llwyth gwaith a gwneud penderfyniadau yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae staff yn dechrau sylweddoli budd cynnwys plant yn fwy ym mywyd yr ysgol.

15 Mewn ysgolion da, mae cyngor yr ysgol yn helpu datblygu:

- medrau siarad, medrau gwrando a medrau personol a chymdeithasol disgyblion;
- agweddau cadarnhaol tuag at ddinasyddiaeth a democratiaeth;
- lefelau da o hyder a hunan-barch.

16 Mae llawer o ysgolion wedi cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau am gryn amser, ac mae eu cynghorau ysgol wedi hen sefydlu. Mae'r ysgolion hyn yn hyderus wrth redeg cyngor, ac yn ei ystyried yn rhan o agenda cyfranogiad yr ysgol gyfan. Mae ysgolion eraill ar gyfnodau cynnar sefydlu a datblygu cyngor ysgol, a hyd yma, ychydig o ddealltwriaeth neu ddim o gwbl sydd gan staff a disgyblion o'u rôl neu'u swyddogaeth.

17 Trwy gyngor ysgol, mae disgyblion yn datblygu'u medrau personol a chymdeithasol, ac agweddau cadarnhaol, mwy gwybodus at ddinasyddiaeth a democratiaeth. Hefyd, maent yn dod yn fwy ymwybodol o'u rôl fel dinasyddion trwy ddysgu mwy am agweddau newyddach ar y cwricwlwm, fel datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

18 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, cyngor yr ysgol yw'r prif fodd a ddefnyddir ar gyfer cyfranogiad democratig, ond, yn yr arfer orau, un dull yn unig yw cyngor yr ysgol i annog cyfranogiad.

19 Fodd bynnag, mae rhai cynghorau ysgol yn gweithio ar wahân i waith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mewn ysgolion lle mae hyn yn digwydd, nid oes cyswllt rhwng gwaith cyngor yr ysgol ac agweddau eraill ar fywyd yr ysgol.

20 Mae lleiafrif sylweddol o ysgolion yn rhoi cyfrifoldeb am gyfranogiad disgyblion i un aelod o staff, ac mae hyn yn golygu nad yw aelodau eraill y staff yn cymryd gymaint o berchenogaeth o'r prosesau o gynnwys plant mewn gwneud penderfyniadau.

21 Mae tystiolaeth arolygu yn dangos bod ysgolion cynradd yng Nghymru yn llwyddo i gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau.

22 Mae 75% o ysgolion cynradd yn dda o ran paratoi dysgwyr i gymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol a'r gymuned, drwy'r pynciau y maent yn eu hastudio a thrwy eu cyfranogiad hefyd mewn gweithgareddau allgyrsiol. Yn yr arfer orau, mae gan ysgolion ethos sy'n gwneud i blant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hannog. Mae eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt lais.

23 Mewn 96% o ysgolion cynradd, mae arweinwyr a rheolwyr yn dechrau cynnwys disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill mewn barnu pa mor dda y maent yn gwneud.

24 Lle mae ysgolion cynradd yn helpu disgyblion i ddatblygu'u medrau gwneud penderfyniadau a chynllunio, mae'n baratoad da ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

25 Mae adroddiadau arolygu yn dangos bod disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i fod yn rhan o wneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys cael dweud eu dweud mewn dyfeisio rheolau ysgol newydd, penderfyniadau ynghylch gwisg yr ysgol, ac mewn rhai achosion, bod yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr hyd yn oed a chael eu cynnwys ar banelau cyfweld pan fydd ysgolion yn penodi staff newydd.

26 Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae arweinyddiaeth gref yn sicrhau bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyfranogiad wedi gwreiddio'n llawn yn niwylliant yr ysgol ac nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigwyddiad unigryw, fel "diwrnod gweithgarwch" unigol.

27 Mae llawer o ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar na chynhelir eisoes yn addasu'u cwricwlwm i gynnwys dysgu mwy gweithgar wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

28 Ar gyfer plant dan 5 oed, datblygiad personol a chymdeithasol yw'r maes dysgu cryfaf o hyd mewn ysgolion a lleoliadau na chynhelir. Mae plant ifanc iawn yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn eu dysgu.

29 Mae llawer o awdurdodau addysg lleol (AALlau) wedi ymrwymo i wella cyfranogiad dysgwyr ac yn cynnig cymorth a hyfforddiant da ar gefnogi cyfranogiad disgyblion i staff ysgolion. Fodd bynnag, nid yw rhai AALlau yn cynnig digon o arweinyddiaeth yn hyn o beth.

30 Nid oes gan AALlau ac ysgolion systemau ar waith i arfarnu effeithiolrwydd eu hymdrechion i annog mwy o gyfranogiad. Nid ydynt yn monitro ac yn arfarnu digon ar waith cynghorau ysgol.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

A1 wneud cyfranogiad pob dysgwr yn ganolog i nodau a gweledigaeth yr ysgol;

A2 gwneud yn siwr bod pawb sy'n gysylltiedig yn deall ystyr ehangaf "cyfranogiad";

A3 sicrhau bod y pennaeth yn cynnwys yr holl staff wrth hyrwyddo mwy o gyfranogiad ymhlith dysgwyr;

A4 gwneud yn siwr bod yr holl staff yn deall bod pawb yn gyfrifol am gynllunio ar gyfer gweithredu cyfranogiad yn yr ysgol, a bod cyfranogiad yn broses bob dydd yn hytrach na'n ddigwyddiad unigryw sy'n digwydd o dro i dro yn unig;

A5 datblygu gwaith cyngor yr ysgol ymhellach a chynnig mwy o weithgareddau ysgol gyfan i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyfranogi ac yn gwneud penderfyniadau;

A6 cynnig hyfforddiant i'r holl staff i wella'u medrau wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad disgyblion a gwneud penderfyniadau; a

A7 sicrhau bod lleisiau plant iau (dan 7 oed) yn cael eu clywed a bod eu barnau'n cael eu hystyried.

Dylai awdurdodau lleol:

A8 ddarparu cymorth parhaus i ddatblygu cyfranogiad ehangach a mwy effeithiol; a

A9 darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau staff allweddol ac athrawon sydd newydd gymhwyso i sicrhau bod ysgolion yn gallu integreiddio cyfranogiad i'r ysgol gyfan.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A10 barhau i ddarparu cymorth i gynghorau ysgol a datblygu cyngor ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol ar y modd i ddatblygu'r agweddau ehangach ar gyfranogiad; ac

A11 annog hyfforddwyr athrawon i gynnwys cyfranogiad disgyblion fel rhan o'u hyfforddiant.

Tystiolaeth arolygu o raddau cyfranogiad plant a phobl ifanc

31 Mae 'Gwrando ar ddysgwyr' mewn grwpiau ffocws, dosbarthiadau ac mewn trafodaethau un i un wedi cynhyrchu cryn dipyn o dystiolaeth arolygu sy'n dangos bod ysgolion cynradd da yng Nghymru yn llwyddo i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion i wneud penderfyniadau a dewisiadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

32 Mae addysgu da ac ysgolion da yn golygu:

- rhoi dewisiadau i'r dysgwr a helpu'r dysgwr i gyfranogi mewn gwneud penderfyniadau;
- agor drysau i ddysgu;
- galluogi disgyblion i gymryd perchenogaeth o'u dysgu;
- datblygu dysgwyr gydol oes annibynnol;
- helpu dysgwyr i ddod yn ddinasyddion mwy hyderus a chyfrifol; a
- galluogi dysgwyr i fodloni'r newidiadau a'r heriau yn eu bywydau personol gyda phenderfyniad a brwdfrydedd.

33 Mae ysgolion yn dod yn fwy ymwybodol fod cyfranogiad yn cynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r rhain yn eu tro yn cynorthwyo'u datblygiad fel dinasyddion gweithgar yn eu cymuned. Trwy fod yn rhan o wneud penderfyniadau, mae plant a phobl ifanc yn arfer cyfrifoldeb.

34 Mae'r graffiau isod yn rhoi canrannau'r graddau a ddyfarnwyd ar gyfer pob agwedd ar Gwestiynau Allweddol 1, 3 a 6 mewn adroddiadau arolygu ysgolion cynradd yn 2005-6, sy'n berthnasol i bwnc yr adroddiad hwn.

35 Ar gyfer pob cwestiwn allweddol, dyfernir gradd 1-5 yn unol â'r raddfa ganlynol o ddisgrifwyr graddau:

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4: Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5: Llawer o ddiffygion pwysig

Allwedd:

Gradd 1		Gradd 2		Gradd 3		Gradd 4		Gradd 5	

Safonau: Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

1.13 Pa mor dda y mae dysgwyr yn datblygu'r gallu i weithio'n annibynnol, gan gynnwys y medrau angenrheidiol i gynnal dysgu gydol oes?

15%	55%	28%	2%

36 Mae'r graff uchod yn dangos bod gan 70% o ysgolion nodweddion da, gan gynnwys nodweddion rhagorol mewn 15%, yn y modd y maent yn annog disgyblion i gynllunio a threfnu'u gwaith eu hunain, mynd i'r afael â phroblemau, caffael medrau dysgu a gwneud penderfyniadau.

1.14 Pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a'u datblygiad ehangach?

28%	54%	18%

37 Mae'r graff hwn yn dangos y graddau y mae ysgolion yn llwyddo i annog dysgwyr i weithio'n dda gydag eraill, i ryngweithio'n gymdeithasol, i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a datblygu hyder a gwerthoedd personol. Mewn dros 70% o ysgolion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da neu ragorol yn yr agweddau hyn.

1.16 Pa mor effeithiol y mae disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer cyfranogiad yn y gweithle ac yn y gymuned?

15%	61%	22%	2%

38 Mae 75% o ysgolion yn paratoi dysgwyr yn dda iawn i gymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol a'r gymuned, drwy'r pynciau y maent yn eu hastudio a thrwy eu cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ogystal. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gynlluniau fel Campau'r Ddraig a'r fenter Ysgolion Iach lle mae arbenigwyr yn ymweld â'r ysgol ac yn annog gweithgareddau tîm a grŵp. Mae mentrau felly yn cynnwys disgyblion mewn gwneud penderfyniadau, mewn gweithio a chwarae gyda'i gilydd, wrth wrando ar farnau ac ystyried barnau eu cymheiriaid.

Cwricwlwm: Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr?

3.5 A yw profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion?

39%	52%	9%

39 Mae'r graff hwn yn dangos pa mor dda y mae ysgolion yn annog datblygiad personol disgyblion a'u dealltwriaeth o'u cymuned. Hefyd, mae'n dangos pa mor dda y mae disgyblion yn uniaethu ag eraill ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain.

40 Mae llawer o ysgolion yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'u rôl fel dinasyddion yn y gymuned leol drwy annog eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau. Maent yn helpu eu paratoi ar gyfer hyn trwy gynnal dadleuon dosbarth, ffug etholiadau ac mewn rhai achosion, yn eu cynnwys wrth fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor yr awdurdod lleol. Mae pobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol hefyd o'u rôl fel dinasyddion trwy gyfraniadau newydd at y cwricwlwm, yn benodol trwy ddysgu llawer mwy am faterion byd-eang a datblygiad cynaliadwy.

41 Mae mwy a mwy o ysgolion cynradd yn mynd â disgyblion i ganolfannau gweithgareddau awyr agored, lle mae disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n eu helpu i ddeall eu cryfderau a'u cyfyngiadau, trwy weithio mewn amgylchedd gwahanol. Maent yn dysgu i weithio'n fwy cydweithredol a sensitif fel aelodau timau.

Cefnogaeth: Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

4.1 A yw'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau a gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn effeithiol, gan gynnwys cyfarfod â chyngor yr ysgol i sefydlu barnau disgyblion?

42 Mae'r graff hwn yn dangos mai 10% yn unig o ysgolion cynradd sydd â diffygion yn yr agwedd hon ar y ddarpariaeth. Mae ysgolion yn darparu cefnogaeth dda i alluogi dysgwyr i chwarae rhan lawnach fyth ym mywyd yr ysgol. Mae rôl cyngor yr ysgol yn agwedd bwysig ar hyn. Mae rhan fwyaf yr adroddiadau arolygu yn barnu bod cynghorau ysgol yn dda iawn. Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael llais pan fyddant yn cael eu cynnwys mewn cynghorau ysgol. Roedd gan lawer o ysgolion systemau ar waith i ofyn am farnau dysgwyr cyn y rheoliadau newydd. Serch hynny, mae'r rhain wedi'u ffurfioli erbyn hyn drwy sefydlu cyngor ysgol. Mae'r graff hwn yn dangos hefyd bod ysgolion wedi gwella'r ffordd y maent yn gofalu am ddisgyblion ac yn cefnogi disgyblion, gan eu galluogi i deimlo'n sicr i fynegi'u barnau mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

6.3 A yw arweinwyr a rheolwyr yn gofyn am ac yn ystyried barnau disgyblion, staff a phartïon eraill â diddordeb?

43 Mewn 96% o ysgolion cynradd, mae arweinwyr a rheolwyr yn dechrau cynnwys disgyblion, rhieni, llywodraethwyr ac eraill wrth farnu pa mor dda maent yn gwneud. Mae'r darparwyr gorau yn gofyn am farnau dysgwyr, yn gwrando arnynt ac yn eu hystyried yn ofalus, ac yn cymryd camau addas i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir wrth gynnal eu prosesau hunanarfarnu ac wrth gynllunio ar gyfer gwella.

44 Mae cyfranogiad yn amlwg ym mhob ysgol, ond mewn ysgolion da mae staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc ar sail ysgol gyfan. Mae gofynion Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'r gofyniad i ysgolion CA2 sefydlu cyngor ysgol wedi codi proffil cyfranogiad.

45 Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae arweinyddiaeth gref yn sicrhau bod cyfranogiad yn digwydd yn gyson drwy gynnwys pobl ifanc gymaint â phosibl mewn materion bob dydd. Yn yr ysgolion hyn, un dull yn unig o gyfranogi yw cyngor yr ysgol.

46 Mae arolygiadau'n dangos bod arweinyddiaeth a rheolaeth gref wrth galon ysgol dda, ac mai un mater allweddol mewn datblygu diwylliant lle mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yw arweinyddiaeth ac egni'r pennaeth. Mae angen i weledigaeth y pennaeth gynnwys yr holl staff a'r disgyblion er mwyn i gyfranogiad weithio'n dda.

47 Mae adroddiadau arolygu'n dangos bod darparwyr yn cynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys cael dweud eu dweud mewn dyfeisio rheolau ysgol newydd, penderfyniadau ynghylch gwisg yr ysgol, ac mewn rhai achosion, bod yn bresennol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr hyd yn oed a chael eu cynnwys ar banelau cyfweld pan fydd ysgolion yn penodi staff newydd.

48 Mae penaethiaid ac athrawon yn ansicr weithiau ynghylch ystyr "cyfranogiad", fel y'i defnyddir yn y cyd-destun polisi, ond, pan ofynnir iddynt sut mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn eu dysgu eu hunain a gweithgareddau allgyrsiol, gallant roi nifer o enghreifftiau fel:

- gosod targedau ar gyfer gwella;
- cymryd rhan mewn hunanasesiadau a thrafodaethau grŵp;
- cymryd rhan mewn dadleuon a chyflwyniadau; ac
- amser cylch.

Y Cyfnod Sylfaen

49 Mae'r cwricwlwm Sylfaen yn helpu plant ifanc iawn i ddatblygu'r medrau a fydd yn eu galluogi nes ymlaen i gaffael gwybodaeth. Mae dysgwyr sy'n cael profiad o'r Cyfnod Sylfaen yn caffael y nodweddion canlynol:

- ✓ hyder i gyfrannu at drafodaethau dosbarth ac i wneud penderfyniadau amdanynt eu hunain;
- ✓ hyder mewn gweithgareddau awyr agored;
- ✓ y gallu i fynegi'u hunain drwy ystod o gyfryngau;
- ✓ meistrolaeth o'r medrau sylfaenol siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu a TG/TGCh, yn enwedig y ddau gyntaf;

- ✓ y gallu i gynllunio ac adolygu'u gwaith;
- ✓ y gallu i ddefnyddio medrau meddwl a dull ystyriol o ddatrys problemau;
- ✓ yr ymreolaeth i ddefnyddio'u hamser yn effeithiol a gweithio ar brosiectau/gweithgareddau annibynnol; a'r
- ✓ gallu i weithio'n dda fel aelod o dîm ac i arwain gweithgareddau pan fydd hynny'n ofynnol.

50 Ar gyfer plant dan 5 oed, datblygiad personol a chymdeithasol yw'r maes dysgu cryfaf o hyd mewn ysgolion a lleoliadau na chynhelir. Mae niferoedd sylweddol o adroddiadau arolygu yn gwneud sylwadau ar lefelau isel medrau iaith a medrau personol a chymdeithasol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae arolygiadau'n barnu bod cynnydd da yn cael ei wneud yn yr agweddau hyn a bod disgyblion yn cyflawni mwy o hyder a hunan-barch yn ystod yr amser y maent yn ei dreulio yn yr ysgol neu'r lleoliad.

51 Yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, mae dysgu'n canolbwyntio'n fwy ar y plentyn. Mae plant yn cael eu hannog i feddwl mwy drostynt eu hunain, i ymateb i syniadau a chwestiynau'n frwdfrydig ac yn greadigol, ac i arbrofi gyda phrofiadau dysgu newydd tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae cwricwlwm Cyfnod Sylfaen sydd wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi'r cyfleoedd hyn i blant ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar arfer dda gyfredol lle mae plant:

- yn mynegi barn;
- yn cymryd cyfrifoldeb;
- yn datrys problemau;
- yn gwneud penderfyniadau;
- yn gwneud dewisiadau; ac
- yn ymateb i awgrymiadau.

52 Mae llawer o ysgolion a lleoliadau na chynhelir eisoes yn addasu'u cwricwlwm i gynnwys dysgu mwy gweithgar wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn gyfan. Mae athrawon ac oedolion yn rhoi mwy o ddewisiadau, a dewisiadau gwell, i blant ifanc. Mae plant yn cychwyn rhai o'u gweithgareddau eu hunain ac yn dewis pryd a sut i gwblhau rhai tasgau. Mae tystiolaeth arolygu'n cadarnhau bod y ffordd hon o weithio yn cael effaith ar annibyniaeth, hyder ag agweddau cadarnhaol plant at gyfranogi mewn dysgu.

53 Trwy ddysgu gweithredol a pharch tuag at allu plant i fod yn hunangymhellol a hunangyfeiriol, mae athrawon ac oedolion yn rhoi dewisiadau i blant ifanc ac mae plant yn cychwyn rhai o'u gweithgareddau eu hunain trwy gyd-drafod ag oedolion.

Cynghorau ysgol a'r modd y maent yn galluogi cyfranogiad disgyblion mewn prosesau democratig a gwneud penderfyniadau

54 Mae cynghorau ysgol yn fodd effeithiol iawn o gynnwys plant a phobl ifanc ym mywyd yr ysgol. Maent yn rhoi cyfrifoldeb i ddisgyblion ac yn gwneud iddynt deimlo'n werthfawr. Mae'r rheoliadau statudol mewn perthynas â chynghorau ysgol wedi gwneud gwahaniaeth pwysig i agweddau ysgolion tuag at gynghorau. Ar y cychwyn roedd rhai aelodau staff ysgolion yn ofni'r hyn y gallai'r cyngor ei olygu i athrawon o ran llwyth gwaith a gwneud penderfyniadau yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae staff yn dechrau sylweddoli budd cynnwys plant yn fwy ym mywyd yr ysgol.

55 Mewn ysgolion da, mae cyngor yr ysgol yn helpu datblygu:

- medrau siarad, medrau gwrando a medrau personol a chymdeithasol disgyblion;
- agweddau cadarnhaol tuag at ddinasyddiaeth a democratiaeth; a
- lefelau da o hyder a hunan-barch.

56 Mae llawer o ysgolion wedi cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau am gryn amser, ac mae eu cynghorau ysgol wedi hen sefydlu. Mae'r ysgolion hyn yn hyderus wrth redeg cyngor, ac yn ei ystyried yn rhan o agenda cyfranogiad yr ysgol gyfan. Fodd bynnag, mae ysgolion eraill ar gyfnodau cynnar sefydlu a datblygu cyngor ysgol. Yn yr ysgolion hyn ychydig o ddealltwriaeth neu ddim o gwbl sydd gan staff a disgyblion o'u rôl neu'u swyddogaeth yn yr ysgol.

57 Cyngor yr ysgol yw'r prif ddull i ddisgyblion gyfranogi mewn proses ddemocratig sy'n arwain at wneud penderfyniadau ynghylch y modd y mae ysgol yn cael ei threfnu. Mae'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau hyn wedi cynyddu oherwydd cynghorau ysgol. Roedd pob un o'r disgyblion a gafodd eu cyfweld yn ystod yr arolwg hwn yn frwdfrydig ynghylch eu cyngor ysgol. Roeddent yn siarad yn frwdfrydig ynghylch nifer o gamau a gwelliannau sydd wedi'u sicrhau o ganlyniad i'w cyfarfodydd. Roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn eu cymryd o ddifrif.

58 Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau a'r argymhellion o gynghorau ysgol wedi arwain at y gwelliannau canlynol mewn ysgolion a arolygwyd yn ddiweddar:

- cyfarpar gwell i fannau chwarae a rheolau diogelwch ar gyfer chwarae yn yr awyr agored;
- cyflwyno system gyfeillio i helpu disgyblion iau deimlo'n ddiogel;
- cyfleusterau gwell yn yr awyr agored;
- safonau uwch mewn prydau bwyd a gwell trefniant amser cinio; a
- thoiledau glanach sy'n cael eu gwasanaethu'n well.

59 Trwy gyngor yr ysgol a gweithgareddau cysylltiedig, mae dysgwyr yn cael ymdeimlad o berchenogaeth a balchder yn eu hysgol a'u cymuned, ac yn teimlo eu bod yn cael llais go iawn yn y modd y mae'r ysgol yn cael ei threfnu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol mewn rhai ardaloedd o amddifadedd ac, mewn rhai achosion, mae wedi lleihau lefelau fandaliaeth. Hefyd, mae'n dechrau newid y canfyddiad negyddol o'r ysgol a oedd yn bodoli'n flaenorol yn y cymunedau hyn.

60 Mae rhai ysgolion wedi cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau ynglŷn â staffio. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn cael eu cynnwys ym mhenodiadau staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu. Mae penaethiaid ac athrawon yn gofyn am farnau'r disgyblion ynghylch y rhinweddau y byddent yn dymuno'u gweld mewn aelod newydd o staff, ac mae'r rhain yn cael eu hymgorffori mewn swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd. Hefyd, mae rhai ysgolion yn cynnwys disgyblion yn y broses gyfweld. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos y cysylltiad hwn.

Astudiaeth achos 1: mewn ysgol gynradd wledig yn ne ddwyrain Cymru

Mae disgyblion yn cyfrannu at benodi aelod newydd o staff.

Mae disgyblion yn penderfynu ar y gweithgaredd y byddent yn dymuno i ymgeiswyr ymgymryd ag ef. Maent yn seilio hyn ar yr hyn yw'r swydd: er enghraifft, pa un ai swydd addysgu cerddoriaeth ydyw neu swydd goruchwylio amser cinio. Mae disgyblion yn gwneud hyn gyda chymorth athrawon, ac maent yn gysylltiedig â phennu'r meini prawf ar gyfer y penodiad. Mae eu penderfyniadau'n seiliedig ar ba fath o fedrau sy'n ofynnol a hefyd sut mae pob ymgeisydd yn uniaethu â phlant. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr. Mae'r athro, gydag aelodau cyngor yr ysgol, wedyn yn adrodd argymhellion cyngor yr ysgol yn ôl i'r panel penodiadau. Mae'r rhain yn cael eu hystyried wedyn pan fydd y panel yn gwneud y penderfyniad terfynol.

61 Fel rhan o'u cysylltiad â Buddsoddwyr mewn Pobl, datblygodd un cyngor ysgol set o reolau ysgol, gan gynnwys system o wobrau a sancsiynau. Fe wnaeth cynnwys dysgwyr gael effaith gadarnhaol ar wella ymddygiad, gan fod y disgyblion yn teimlo eu bod wedi helpu sefydlu'r rheolau. Mewn enghraifft arall o arfer dda, gweithiodd grŵp o ddisgyblion o nifer o gynghorau ysgol eraill, gyda'i gilydd i lunio polisi ymddygiad ar y cyd. Mae ysgolion eraill wedi adolygu'u polisïau hefyd i wneud yn siwr eu bod mewn iaith gyfeillgar i ddisgyblion, mewn ymateb i gyfarfodydd cynghorau ysgol. Mae'r astudiaeth achos nesaf yn dangos y modd y gall cyfranogiad disgyblion helpu mynd i'r afael â phroblemau bwlio.

Astudiaeth achos 2: sut mae cyngor ysgol yn helpu mynd i'r afael â bwlio

Mewn un ysgol, mae disgyblion ar gyngor yr ysgol yn ymwneud yn weithredol â monitro bwlio ac ymddygiad cyffredinol ar draws yr ysgol. Maent yn sôn am y modd i adnabod sefyllfaoedd bwlio potensial, dulliau sylfaenol o ddatrys gwrthdaro a'r modd y gall eu hagwedd a'u hymddygiad helpu. Mae aelodau cyngor yr ysgol yn defnyddio amser cylch hefyd i drefnu eu bod ar gael i ddisgyblion eraill i drafod unrhyw bryderon unigol. Yn bwysig, mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u cyfyngiadau fel cynghorwyr ac yn gwybod pryd i gyfeirio mater at staff.

62 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu medrau rhyngbersonol ac yn dysgu gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau. Mae'r astudiaeth achos isod yn rhoi enghraifft o gydweithredu i fynd i'r afael â phroblem sbwriel.

Astudiaeth achos 3: sut wnaeth cyngor ysgol gynradd arwain menter i glirio sbwriel o'r gymuned

Cododd cyngor yr ysgol bryderon yn yr ysgol yn gyntaf, ac yna yn y gymuned, ynghylch y sbwriel ar y llwybr gerllaw'r ysgol. Dangoswyd ymwybyddiaeth ganddynt o'u cyfrifoldeb i ofalu am eu hamgylchedd. Cynhwysodd y cyngor yr ysgol uwchradd gyfagos ac adrannau'r cyngor mewn ymarferiad casglu sbwriel. Cafodd yr ardal ei chlirio a chodwyd arwyddion i sicrhau ei bod yn aros yn lân o sbwriel. Roedd y disgyblion yn falch o'u cyflawniadau. Gwnaeth yr athrawon sylwadau ar y cynnydd yn eu hyder, a'u gallu i weithio gyda'i gilydd a'r gwelliant yn eu hunan-barch.

63 Er nad oes gofyniad i gynnwys disgyblion CA1 ar gynghorau ysgol, mae gan lawer o ysgolion gynrychiolwyr o Flwyddyn 2 a rhai o Flwyddyn 1 hyd yn oed. Mae gan lawer o ysgolion cynradd fecanweithiau, fel amser cylch, i ofyn am farnau plant iau. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion nid yw barnau'r disgyblion iau yn cael eu hystyried digon.

64 Trwy fod yn rhan o gynghorau ysgol, mae mwy o ddisgyblion a phobl ifanc yn dod yn fwy cysylltiedig â chynllunio polisïau awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol da yn annog disgyblion i fynychu cynadleddau ac i adolygu dogfennaeth.

65 Er mwyn bodloni gofynion statudol lle mae cynghorau ysgol dan sylw, mae llawer o ysgolion wedi penodi swyddogion cyfranogiad neu swyddogion cynghorau ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae llawer o aelodau staff eraill yn teimlo eu bod yn colli perchenogaeth ar y gwaith, o ganlyniad i hyn. Mae'r deiliaid swyddi hyn yn gweithio'n galed ac yn rhedeg cynghorau ysgol effeithiol yn aml, ond nid yw aelodau staff eraill yn cael eu cynnwys ac nid oes cyswllt â gweithgareddau cwricwlwm.

66 Comisiynodd un awdurdod lleol asiantaeth allanol i weithio gydag ysgolion cynradd i ddatblygu cynghorau ysgol. Gofynnwyd i ddisgyblion edrych ar faterion awdurdod lleol fel bwlio, yn ogystal â thestunau yn canolbwyntio ar yr ysgol fel amser chwarae, ond ni chafodd yr ysgolion eu hunain eu cynnwys yn ddigonol yn y broses.

67 Trwy gynghorau ysgol, mae ysgolion cynradd yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau sy'n eu paratoi yn dda ar gyfer yr ysgol uwchradd. Mae ysgolion uwchradd yn gweld bod disgyblion yn fwy hyderus a bod ganddynt fwy o fedrau i gyfranogi yn eu cyngor ysgol gan fod disgyblion eisoes wedi bod yn gysylltiedig â hwy yn eu hysgol gynradd.

68 Mae disgyblion yn dod yn fwy ymwybodol o weithrediad democratiaeth leol, trwy fod yn rhan o broses gwneud penderfyniadau fel aelodau cyngor ysgol.

69 Mae rhai cynghorau ysgol yn gweithio ar eu pennau'u hunain. Yn yr ysgolion hyn, nid oes cyswllt rhwng gwaith cyngor yr ysgol a gweddill yr ysgol. Maent yn canolbwyntio ar weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac nid oes cyswllt ag addysgu a dysgu. Mae ysgolion da yn sicrhau bod pob disgybl ac aelod o staff yn cael eu cynnwys. Mewn rhai ysgolion, mae amser cwricwlwm yn cael ei neilltuo a defnyddir cynulliadau ysgol gyfan i sicrhau cyswllt disgyblion.

Cysylltiad disgyblion â chymuned yr ysgol

70 Er gwaethaf llawer o enghreifftiau o arfer dda sy'n cynnwys dysgwyr yn yr ystyr ehangaf, mae llawer o benaethiaid yn teimlo mai cael cyngor ysgol yn unig y mae cyfranogiad yn ei olygu. Fodd bynnag, mae llawer o ffyrdd eraill i ddisgyblion ymwneud yn fwy gweithredol â'r ysgol a'i chymuned.

71 Mae ysgolion wedi ymateb yn dda i flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu gydol oes ac adfywio, ac mae gan lawer ohonynt bwyllgorau sy'n canolbwyntio ar faterion amgylcheddol a maethol. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfranogi'n gadarnhaol mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

72 Mae tystiolaeth arolygu'n dangos cynnydd mewn ymglymiad disgyblion mewn penderfyniadau i sefydlu siopau bwyd iach a chiniawau iach. Mae llawer o ddisgyblion yn ymwneud yn weithredol hefyd â gwelliannau amgylcheddol fel ailgylchu, adfer camlesi a chreu gardd eco a rhandir ar gyfer yr henoed.

73 Mae mwyafrif helaeth yr ysgolion yn cynnwys disgyblion hefyd drwy:

- holiaduron, sy'n gofyn iddynt beth ydynt yn teimlo y gellid ei wella yn yr ysgol;
- cydaddoli, cyngherddau a drama;
- amser cylch;
- systemau cyfeillio;
- gêmau tîm;
- gwaith elusennol; a
- gweithredu fel swyddogion neu fonitoriaid.

74 Mae'r ysgolion hyn yn gweld cyfranogiad fel rhywbeth llawer mwy na chael cyngor ysgol yn unig. Maent yn annog pob disgybl i wneud cyfraniad cadarnhaol at fywyd yr ysgol. Mae staff yn dosbarthu holiaduron sy'n gofyn i ddisgyblion am eu barnau ar faterion fel prydau ysgol, gwisg ysgol, rheolau, gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cael eu dadansoddi gan athrawon, ac mae materion sy'n codi yn cael eu bwydo i mewn i gynlluniau gwella'r ysgol a dogfennau hunanarfarnu. Mae barnau disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi ac yn arwain at welliannau.

75 Mae ysgolion y bernir eu bod yn dda gyda nodweddion rhagorol wedi ehangu'r cyfleoedd y maent yn eu cynnig i ddisgyblion fod yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau. Defnyddiodd un ysgol "Buddsoddwyr mewn Pobl" fel ffordd i ddatblygu gwaith cyfranogiad ymhellach yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn gosod targedau unigol, yn cytuno targedau dosbarth, yn gwella'u dealltwriaeth o'u rôl eu hunain yn y broses ddysgu, a'r modd y mae hyn yn cyfrannu at godi safonau. Gall targedau dosbarth a thargedau unigol a osodir gan y disgybl

ymwneud â dysgu, ymddygiad, presenoldeb, rheoli'r ystafell ddosbarth a chynlluniau sefydlu. Trwy gynnwys pobl ifanc fel hyn, mae'r ysgol yn dangos ei bod yn gwerthfawrogi'u cysylltiad â materion ysgol gyfan. Mae'r astudiaeth achos nesaf yn dangos y modd y gall disgyblion gymryd cyfrifoldeb am gyd-drafod targedau dosbarth.

Astudiaeth achos 4: sut mae dosbarthiadau mewn ysgol gynradd yn cyd-drafod ar gyfer cynllun gwobrwyon newydd i wella presenoldeb a chyflawniad

Mae un dosbarth yn gweithio tuag at awr sinema, fel gwobr am gyfraddau presenoldeb gwell yn y dosbarth, tra bod dosbarth arall yn gobeithio am amser chwarae ychwanegol, trwy wella prydlondeb. Mae cyflawniadau'n cael eu cydnabod hefyd trwy "Gynllun Falch o fod yn Bresennol" ar draws yr ysgol, ac mae disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r modd, pa bryd a pham y mae gwobrau'n cael eu rhoi. Trwy roi cyfrifoldeb i ddysgwyr i sefydlu'u targedau presenoldeb eu hunain fel hyn, mae'r ysgol yn annog mwy o gyfranogiad mewn agwedd bwysig ar fywyd yr ysgol.

76 Mae llawer o ddisgyblion yn gysylltiedig â datblygu gwefannau ysgol neu ddosbarth. Maent yn gweithio gyda'i gilydd mewn parau neu mewn grwpiau bach i wneud y gwaith dylunio. Mae hyn yn cefnogi lefelau da o waith tîm. Maent hefyd yn helpu i drefnu clybiau ysgol ac yn cynllunio gweithgareddau addas. Mae hyn yn eu helpu i ymarfer gwneud penderfyniadau yn ogystal.

77 Mae disgyblion yn gynyddol yn cael eu cynnwys mewn asesu eu dysgu eu hunain. Mae ysgolion yn cynnig mwy o gyfleoedd asesu unigol, cymheiriaid a grŵp sy'n rhoi cyfrifoldeb i ddisgyblion am asesu eu cynnydd eu hunain. Mae'r astudiaeth achos nesaf yn dangos sut mae disgyblion a rhieni'n ymwneud ag adolygu cynnydd a rhoi sylw i faterion pryder.

Astudiaeth achos 6: sut mae ysgol yn cynnwys disgyblion mewn ymgynghoriadau â rhieni

Mae'r ysgol yn cynnal pedair noson agored y flwyddyn yn ogystal â nosweithiau ymgynghori cyson. Yn y cyfarfodydd hyn, mae disgyblion yn arddangos eu gwaith ac yn cael eu hannog i drafod eu cynnydd gydag oedolyn â diddordeb a all fod yn rhiant iddynt, neu'n oedolyn nad yw'n rhiant iddynt. Mae hon yn ffordd effeithiol o gynnwys y gymuned a disgyblion unigol yn eu dysgu eu hunain ac wrth adolygu'u cynnydd eu hunain.

Mae'r ysgol yn gysylltiedig hefyd â phrosiect yn erbyn camddefnyddio sylweddau ar draws yr awdurdod cyfan sy'n cael ei gyflwyno gan yr heddlu, ac sy'n cysylltu â rhaglen Cymru gyfan. Mae'r gweithgareddau yn y rhaglen yn dibynnu'n drwm ar gyfranogiad disgyblion drwy ymarferion mewn parau, grwpiau bach a dosbarthiadau cyfan. Mae cysylltiad rhieni yn hanfodol hefyd, fel bod y gymuned yn cael ei chynnwys mewn trafodaethau ynghylch ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol a phersonol cymhleth.

78 Mae'r sylw y mae ysgolion yn ei roi i'r modd y mae disgyblion yn dysgu wedi gwella gallu disgyblion i ddatrys problemau a gweithio gydag eraill. Mae gan ysgolion da staff sy'n meddwl yn ofalus ynghylch sut y gellid cynnwys dysgwyr mwy mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae strategaethau fel Adeiladu Pŵer Dysgu, Dysgu i Ddysgu, Sgiliau Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu yn herio disgyblion i ddatblygu'u dealltwriaeth i weithio pethau allan drostynt eu hunain. Mae'r mentrau hyn yn annog dysgwyr i feddwl yn feirniadol ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud a pham maent yn gwneud hynny. Maent hefyd yn gynnig cyfleoedd iddynt ddysgu mewn amrywiaeth fwy o ffyrdd nag o'r blaen. Mae dysgwyr yn dod yn feddylwyr beirniadol sy'n rhoi rhesymau ac yn gofyn am resymau. Mae'r broses o adolygu'u gwaith, dadansoddi cryfderau a gwendidau a gosod targedau yn eu helpu i fod yn fwy cysylltiedig â phob agwedd ar eu gwaith.

79 Yn rhan fwyaf yr ysgolion, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwaith elusennol. Drwy hyn maent yn dangos empathi tuag at eraill ac yn gweithio'n gydweithredol. Maent yn dewis yr elusen eu hunain, trwy bleidleisio. Mae'r holl ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn cyfranogi mewn gweithgareddau sy'n cynnwys gwneud eitemau fel cardiau i'w gwerthu i godi arian at achosion da. Mae'r gwaith hwn yn helpu i ddatblygu'u medrau cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae'r pleidleisio yn agwedd bwysig gan ei fod yn eu haddysgu am ddemocratiaeth.

80 Mae rhai awdurdodau addysg lleol yn annog ysgolion i wneud cyfranogiad disgyblion yn ganolog i'w hethos. Maent yn darparu hyfforddiant staff, dogfennau arweiniad, deunyddiau adnoddau a hyfforddiant disgyblion. Mae ysgolion yn yr AALlau hyn yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda a bod y cymorth hwn yn ganolog i'w llwyddiant wrth wella ymglymiad disgyblion.

81 Lle nad yw AALlau yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad, nid yw ysgolion yn teimlo'n sicr ynghylch y modd i wella ac annog mwy o gyfranogiad gan ddisgyblion. Mae angen cymorth a hyfforddiant arnynt, a byddent yn croesawu rhannu arfer dda. Mae ysgolion yn yr AALlau hyn yn gweithio ar eu pennau'u hunain.

Atodiad

Diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â phobl ifanc 11-25 oed

Ychydig iawn o newidiadau sydd wedi bod i gasgliadau Estyn yn yr adroddiad blaenorol. Mae adroddiad Estyn ar gyfranogiad pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau 11-25, 2005-06 i'w weld ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk.

Mae llawer o bobl ifanc yn dal i deimlo eu bod yn cael llais mewn ysgolion. Yn bennaf, bod yn gysylltiedig â chynghorau ysgol sy'n sicrhau hyn. Yn yr achosion gorau, mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn datblygiadau ysgol gyfan i gynyddu cyfranogiad. Mae'r bobl ifanc hyn yn cymryd rhan mewn datblygu gweithdrefnau addysgu a dysgu arloesol, rheoli ymddygiad a gwneud y ddarpariaeth yn well.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael llais mewn colegau AB. Yn bennaf, trwy gyngor y myfyrwyr y mae hyn yn digwydd. Mae llwybrau clir bob amser i fyfyrwyr wneud cwynion mewn colegau AB, ac yn aml mae myfyriwr ar y corff llywodraethol.

Mae'r nifer fach o awdurdodau lleol nad oedd ganddynt system ar draws y sir i wrando ar bobl ifanc, wedi gwneud cynnydd erbyn hyn wrth ddatblygu strwythurau a recriwtio pobl ifanc. Fodd bynnag, mae lleiafrif o awdurdodau nad ydynt wedi sefydlu strwythur eto i'w galluogi i wrando ar ddysgwyr yn effeithiol.

At ei gilydd, mae staff a rheolwyr yn ymroddedig iawn i ymgynghori ac maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wrando ar farnau pobl ifanc. Er enghraifft, roedd y Cwmni Gyrfaoedd a gafodd ei arolygu eleni yn defnyddio holiaduron, arolygon a grwpiau ffocws i ymateb i gleientiaid yn well.

Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol a phartneriaethau, fel y rheini yn y Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, yn ei chael yn anodd datblygu strategaethau arloesol i wrando ar bobl ifanc. Ar draws Cymru, mae pobl ifanc yn teithio hyd at awr a hanner i gymryd rhan mewn cyfarfodydd fforymau ieuenctid, ac yn aml mae'r cyfarfodydd hyn yn methu tanio diddordeb pobl ifanc mewn democratiaeth a gwneud penderfyniadau. Ar yr achlysuron hyn, nid yw pobl ifanc yn sicr bob tro ynghylch y modd i wneud eu cyfraniad at y broses gwneud penderfyniadau. Nid yw staff a darparwyr yn defnyddio technoleg cyfathrebu'n effeithiol i leihau'r baich ar bobl ifanc nac i ddenu mwy o bobl ifanc i gymryd rhan.

At ei gilydd, mae darparwyr, gan gynnwys partneriaethau, gwasanaethau ieuenctid, ysgolion a sefydliadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol, yn gweld cyfranogiad fel elfen ychwanegol at eu gwaith craidd gyda phobl ifanc. Mewn lleoliadau anffurfiol a ffurfiol, nid yw pobl ifanc bob amser yn cael cefnogaeth i gymryd rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau yn eu gweithgareddau dysgu craidd. Nid yw'r ymchwydd diweddar mewn arweiniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill mewn perthynas â chyfranogiad yn ddefnyddiol bob tro. Yn aml, mae'n golygu bod athrawon ac ymarferwyr ar draws sectorau yn canolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau newydd a beichus ar gyfer cyfranogiad, yn hytrach na chynnwys barnau dysgwyr yn eu gwaith craidd, sef addysgu pobl ifanc.

Ychydig ddarparwyr yn unig sydd wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y maent yn gweithio er mwyn gwrando'n fwy effeithiol ar bobl ifanc. Mae un Partneriaeth Pobl Ifanc wedi newid y ffordd y mae'n trefnu ei chyfarfodydd er mwyn iddi allu cynnwys barnau dysgywr ar bob agenda. Mae'n cynnal y cyfarfod partneriaeth mewn ysgol neu goleg AB gwahanol bob tro. Mae'r bartneriaeth yn gwahodd cyngor yr ysgol neu gyngor y coleg o'r darparwr hwnnw i'r cyfarfod, ac yn canlyn unrhyw ymholiadau neu gamau cyn pen tair wythnos. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw darparwyr yn cynllunio nac yn gwneud newidiadau ar lefel uwch i gynnwys dysgwyr mewn gwneud penderfyniadau.

Yn aml, nid yw grwpiau o bobl ifanc anodd eu cyrraedd yn cael eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys teithwyr, pobl ifanc ddigartref a phobl ifanc anabl.

Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn cynghorau a fforymau ieuenctid yn gweithio'n galed yn aml. Fodd bynnag, nid yw staff yn herio'r bobl ifanc hyn yn ddigonol i ymestyn eu medrau a'u galluoedd, neu i godi'u dyheadau. O ganlyniad, mae dealltwriaeth pobl ifanc o ddemocratiaeth, gwneud penderfyniadau a grymuso yn parhau ar lefel isel.

Nid yw anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried gan staff bob tro pan fyddant yn trefnu cyfarfodydd pobl ifanc ar draws yr awdurdod lleol cyfan. Mae'r cofnodion a'r agendâu yn Saesneg yn unig, ac nid oes cyfleoedd i'r bobl ifanc hyn ddefnyddio'u hiaith ddewisol yn ystod cyfarfodydd. Mae pobl ifanc yn adrodd bod angen iddynt ofyn i staff am adnoddau Cymraeg, neu i wneud safiad er mwyn cael cyfle cyfartal.

Mae trefniadau partneriaeth ar gyfer cydlynu gwasanaethau cymorth ieuenctid yn ei gwneud yn haws i bobl ifanc fynegi'u barnau, ond isel yw'r niferoedd sy'n gysylltiedig. Drwy'r cyfleoedd hyn, mae nifer fach iawn o bobl ifanc yn defnyddio lefelau uchel o fedrau cymdeithasol i gael dylanwadu ar lefelau lleol a chenedlaethol.

Nid yw dysgwyr yn gwneud fawr ddim o benderfyniadau, neu ddim penderfyniadau o gwbl, mewn rhai lleoliadau. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys clybiau ieuenctid awdurdod lleol, gweithgareddau sy'n cael eu rheoli gan grwpiau ieuenctid gwirfoddol a rhai ysgolion uwchradd.